

Polisi TGGCh



Ysgol Pen-y-Garth

Ysgol Pen-y-Garth **Polisi Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Mae Technoleg Gwybodaeth yn newid bywydau pawb. Trwy ddysgu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu rydym yn paratoi plant i gyfranogi yn y byd sydd yn newid yn gyflym o'n cwmpas, lle mae gwaith a gweithgareddau hamdden yn cael eu trawsffurfio yn raddol gan dechnoleg.

Rydym am alluogi'r plant i ddarganfod, chwilio, dadansoddi, cyfnewid a chyflwyno gwybodaeth. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau angenrheidiol er mwyn i blant gael defnyddio'u gwybodaeth technolegol mewn ffyrdd effeithiol. Mae sgiliau TGCh yn allweddol i alluogi plant i fod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus, creadigol a blaengar wrth feddwl yn annibynnol.

Rydym yn annog rhieni a llywodraethwyr i gyfranogi yn y dechnoleg newydd drwy wefan yr ysgol ac wrth gefnogi eu plant yn eu defnydd o'r cyfrifiadur a thechnoleg arall megis defnydd iPads a thabledi.

Y Nod

I ddatblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ymhob plentyn drwy gyfuno cyfathrebu a thrin gwybodaeth gan ddefnyddio offer a ffynonellau technoleg gwybodaeth yn effeithiol yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Gall hyn gynnwys cyfrifiaduron, y rhyngwrwd, cryno ddisgiau a meddalwedd eraill, teledu, radio, fideo, camera a chamerau digidol, sganwyr a ffonau symudol ynghyd ag offer eraill.

Gallwn wneud hyn drwy:

- Ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i hyrwyddo a chyfoethogi addysg bob plentyn ar draws y cwricwlwm.
- Sicrhau fod y plant yn cyrraedd ei lawn potensial mewn TGCh drwy gael profiad amrywiol o dechnoleg gwybodaeth.
- I ddatblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu fel dyfais ymhob maes yn y Cwricwlwm ac ymhob ystod oedran.
- Ceisio gwneud y cyfrifiadur yn rhan annatod o brofiad dosbarth pob disgybl yn yr ysgol.
- I ddatblygu dealltwriaeth y plentyn o swyddogaeth a phwysigrwydd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn bywyd bob dydd.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn y cyfnod Sylfaen, dylai TGCh fod yn rhan hanfodol o bob Maes Dysgu. Dylid datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth plant mewn perthynas â TGCh drwy ystod o brofiadau a syniadau. Dylid arsylwi'r cynnydd yng ngallu plant mewn TGCh gan ddangos dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn a'r camau y mae plant yn mynd drwyddynt wrth ddatblygu.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghyfnod Allweddol 2

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn y Cyfnod Sylfaen. Dylid eu haddysgu i ystyried y math o wybodaeth sydd ei angen arnynt i gefnogi eu tasgau a'u gweithgareddau a sut y gallant ddod o hyd i'r wybodaeth honno; defnyddio ystod gynyddol o offer TGCh i ddarganfod, prosesu a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau penodol diogel ac addas; a datblygu a chreu eu syniadau mewn ffyrdd priodol gan ddatblygu ymdeimlad o ddiben a chynulleidfa.

Sgiliau TGCh.

Gellir datblygu gallu disgyblion i ddarganfod a dadansoddi gwybodaeth trwy gynnig cyfleoedd iddynt:

- drafod diben eu tasgau, eu cynulleidfaedd arfaethedig a'r adnoddau sydd eu hangen
- ddarganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir
- ddewis gwybodaeth addas a llunio barn syml am ffynonellau gwybodaeth
- gynhyrchu a defnyddio cronfeydd data i ofyn ac ateb cwestiynau
- gynhyrchu a defnyddio modelau a/neu efelychiadau i ofyn ac ateb cwestiynau
- ymchwilio i effaith newid y newidynnau mewn modelau a/neu efelychiadau er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau 'Beth pe bai...?'

Datblygu gallu disgyblion i greu a throsglwyddo gwybodaeth trwy gynnig cyfleoedd iddynt:

- greu a throsglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun, delweddau a sain, gan ddefnyddio ystod o galedwedd a meddalwedd TGCh.
- greu ystod o gyflwyniadau gan gyfuno amrywiaeth o wybodaeth a chyfryngau
- rhannu a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel drwy ddulliau electronig.

Datblygu dealltwriaeth disgyblion mewn iechyd, diogelwch ac amddiffyn plant trwy gynnig cyfleoedd iddynt:

- ddysgu fod yn gyfforddus, diogel a chyfrifol wrth ddefnyddio TGCh, ac ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau. Dylent allu dilyn cyfarwyddiadau i leihau'r risg iddynt hwy eu hunain ac eraill.

Yr Ysgol

Y Cydlynnydd - fydd yn gyfrifol am y cynllun gwaith, dilyniant a datblygiad y pwnc, monitro, cynghori ac archebu adnoddau.

Cynlluniau Gwaith - ar gael i sicrhau dilyniant a chynnydd i bob athro/athrawes.

Cyflwyno'r Pwnc - bydd pob athro/athrawes yn gyfrifol am gyflwyno'r pwnc drwy ddilyn y cynlluniau gwaith. Mae gan bob dosbarth gyfriaduron ac mae o leiaf 2 iPad wedi cael ei glustnodi ar gyfer bob dosbarth. Mae hefyd y cliniaduron ar gael.

Trefniant - bydd pob athro/athrawes yn gyfrifol am ddysgu TGCh yn ei ddosbarth/dosbarth. Gall disgyblion unigol weithio ar ben ei hun o dan oruchwyliaeth oedolyn (athro/athrawes/cynorthwydd). Dro arall gwell yw gweithio mewn grŵp neu fel dosbarth gyda phawb ynghlwm wrth yr un weithgaredd, ond rhaid gofalu fod bob plentyn yn cyfrannu at y weithgaredd.

Cyfathrebu - bydd pob athro/athrawes unigol yn ymwybodol o'r elfennau TGCh a ddysgir drwy'r ysgol gyfan a'u defnyddio i addysgu'r pwnc ac mewn pynciau ar draws.

Diogelwch - pob athro/athrawes i fod yn ymwybodol o'r perygl posib sydd ynghlwm a gweithio â'g offer arbennig ac i hybu'r plant i fod yn ofalus wrth weithio ac i barchu eiddo. Pob athro / athrawes i fod yn gyfrifol am addysgu defnydd diogel o'r wê a safweoedd cyfathrebu (social media megis Facebook).

Dylid athrawon addysgu'r disgyblion sut i ddefnyddio TGCh yn gyfforddus, yn ddiogel ac yn gyfrifol, ac ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau e.e. pwysigrwydd peidio â datgelu manylion personol i bobl dieithr. Gwelir polisi E-ddiogelwch yr ysgol am ddiogelwch wrth ddefnyddio'r We Fyd Eang.

Arddangos - pob athro/athrawes i sicrhau rhywfaint o ofod rhywle (tu fewn y dosbarth neu yn y corridor) i arddangos gwaith TGCh y tymor e.e bwrdd arddangos, cornel neu ddarn o wal. Plant i gadw gwaith o fewn ffeiliau unigol ar y cyfrifiadur.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar draws y Cwricwlwm -

Dylai Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gael ei gyfuno â phob pwnc ar draws y cwricwlwm e.e. wrth ddefnyddio rhaglen prosesu geiriau, mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn estyniad naturiol o waith Iaith, Gwyddoniaeth neu Fathemateg.

Datganiad Penodol

Wrth gynllunio gwaith y dosbarth rhaid i bob athro/athrawes gadw mewn cof anghenion pob plentyn, gan wahaniaethu yn ôl y galw. Rhaid hefyd sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn.

Sgiliau ar draws y Cwricwlwm

Datblygu Meddwl - Mewn TGCh, bydd y dysgwyr yn cynllunio eu gweithgareddau gan adnabod meddalwedd a chaledwedd priodol. Byddant yn ystyried anghenion y gynulleidfa, a byddant yn defnyddio TGCh i archwilio a datrys problemau mewn ystod-eang o gyd-destunau, a byddant yn myfyrio ynghylch cryfderau a gwendidau eu hatebion.

Datblygu Cyfathrebu - Mewn TGCh, bydd y dysgwyr yn trosglwyddo ac yn cyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys testun, graffiau lluniau a sain, i gefnogi eu gweithgareddau mewn ystod o gyd-destunau. Byddent yn darllen gwybodaeth o ystod o ffynonellau TGCh a ffynonellau nad ydynt yn

rhai TGCh, a byddant yn trafod eu gwaith â'u cyfoedion, eu hathrawon a phobl eraill. Byddant yn defnyddio TGCh i ddehongli a dadansoddi gwybodaeth a throsglwyddo eu canfyddiadau mewn ffyrdd addas i'w cynulleidfa a'u diben arfaethedig.

Datblygu TGCh - Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ar draws y cwricwlwm trwy ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a Syniadau a thrwy defnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Bydd y dysgwyr yn defnyddio TGCh yn unigol ac ar y cyd, yn dibynnu ar natur a chyd-destun y dasg sydd o dan sylw.

Datblygu Rhif - Mewn TGCh, bydd y dysgwyr yn defnyddio data a gwybodaeth fathemategol a gyflwynir ar ffurf rhifau a graffigau mewn meddalwedd trafod data. Byddant yn defnyddio rhif i gasglu a chofnodi data i'w dehongli mewn taenlenni ac efelychiadau, a byddant yn cyflwyno eu casgliadau ar ffurf graffiau a siartiau gan wirio'u cywirdeb cyn eu prosesu.

Cwricwlwm Cymreig - Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Bydd TGCh yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig drwy roi cyfleoedd i'r dysgwyr ddarganfod a dadansoddi gwybodaeth a nodweddion cyfoethog Cymru a throsglwyddo'u canfyddiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang - Bydd TGCh yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol dysgwyr drwy roi cyfleoedd iddynt wrth weithio mewn cyd-destunau sy'n caniatáu iddynt wneud penderfyniadau sydd wedi 'u selio ar werthoedd sylfaenol cymdeithas, gan eu help i dyfu'n ddinasyddion byd-eang gweithgar a gwybodus. Byddant yn dechrau adnabod a chwestiynu gogwydd mewn ffynonellau gwybodaeth, a byddant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o effeithiau cymdeithasol, moesegol a moesol TGCh yn y byd ehangach.

Dylai dysgwyr ddod o ddeall pwysigrywdd mabwysiadu arferion diogel wrth ddefnyddio dulliau cyfathrebu digidol, a gwerthfawrogi'r angen i ddangos parch at eraill.

Gweler cynlluniau addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a chynlluniau pynciau am esiampl o weithgareddau TGCh, e.e. defnyddio CD-Rom Lesotho i ymchwilio i fywyd yn Lesotho.

Asesu:

Asesir gallu TGCh y disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol.

Cedwir cofnod o ddatblygiad sgiliau TGCh y plant yn ogystal ag enghreifftiau o'u gwaith. Fel arfer bydd y gwaith yma yn draws gwricwlaidd ac yn esiampl o gyrhaeddiad mewn pwnc arall hefyd.

Mae asesu / arsylwi ar sgiliau TGCh ein disgyblion yn broses barhaol anffurfiol sy'n digwydd yn drawsgwricwlaidd yn ogystal ag mewn gwersi penodol TGCh. Mae'r arsylwadau hyn yn galluogi i'r athro / athrawes gynllunio / paratoi ar

gyfer y camau nesaf o ran dysgu. Yn ôl gofynion Cwricwlwm 2008 mae disgyblion yn rhan o'r broses o werthuso'u gwaith a'u dysgu ar gyfer TGCh.

Ysgrifenna'r athro / athrawes sylwadau am gynnydd eu disgyblion yn eu hadroddiadau blynyddol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol/ Abl a Thalentog

Dylid sicrhau bod disgyblion sydd ag ADY yn cael mynediad i bob agwedd o'r maes TGCh ar lefel priodol sy'n sicrhau cyfleoedd i wella.

Pan fo plentyn yn abl a thalentog, ceir darpariaeth wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial.

Gwneir darpariaeth briodol o ran meddalwedd a chaledwedd ar gyfer y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn unol â pholisi ADY yr ysgol.

Cyfleoedd Cyfartal

Darperir cyfleoedd cyfartal yn y maes TGCh i bob plentyn beth bynnag yw ei ryw, hil, gallu neu gefndir.

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i'r rhaglen astudio.

Adnoddau

Ceir 1 cliniadur a bwrdd gwyn rhyngweithiol ym mhob ystafell ddysgu.

Mae cyfrifiaduron a'r wê Wifi ar gael ym mhob ystafell ddosbarth. Mae 16 iPad wedi eu dosbarthu yn yr Adran Iau ac mae 5 iPad ar gael yn yr adran fabannod. Mae rhai cliniadron ar gael yn ychwanegol at ddefnydd yr Adran Iau.

Lleolir y cyfrifiaduron mewn man addas yn y dosbarthiadau gan ystyried oblygiadau diogelwch tân, lleoliad socedau trydan a chael cysgod i'r sgrin oddi wrth yr haul.

Mae gan yr ysgol argraffwyr, sganwyr, caledwedd / meddalwedd, recordyddion 'Easy Speak' a 'Dictaphone', chwaraewyr cd / dvd / teledu, allweddellau trydanol, camerâu digidol, camerâu 'digi blue', camerau fideo 'Flip' a Bee Bots.

Cedwir y caledwedd TGCh yn y dosbarthiadau ond maent ar gael i'w defnyddio gan y dosbarthiadau eraill fel bo'r angen yn codi.

Mae cronfa generig o feddalwedd ar gael ym mhob dosbarth ynghyd ag amrywiaeth o feddalwedd addas arall. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio'r gronfa feddalwedd yn aml oherwydd i'r rhaglenni gael eu dewis i sicrhau dilyn llinynnau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac i sicrhau camau o gynnydd drwy'r ysgol.

Trwy ddefnyddio'r uchod cyflawnir gofynion 'Y Cwricwlwm' a 'Fframwaith y Cyfnod Sylfaen'.

Bydd y cydlynnydd TGCh yn creu cronfa ddata o'r holl gyfarpar TGCh a'r meddalwedd sydd ar gael. Bydd copi o'r gronfa ddata ar gael i bob aelod o'r staff. Caiff y gronfa ddata ei ddiweddarau fel bo'r angen.

Bydd y cydlynnydd TGCh yn sicrhau fod cyfrifiaduron, meddalwedd a holl gyfarpar TGCh yr ysgol yn gyfoes.

Bydd yr athrawon dosbarth yn rhoi gwybod i'r cydlynnydd TGCh os oes rhywbeth o'i le gydag unrhyw gyfarpar TGCh fel y gall y cydlynnydd gymryd y camau priodol i'w cywiro.

Gwefan yr Ysgol

Defnyddir ein gwefan ysgol i rannu gwybodaeth i son am ddigwyddiadau, gweithgareddau allgyrsiol, mentrau a chwaraeon sy'n digwydd yn yr ysgol. Athrawon dosbarth sydd yn gyfrifol am adnewyddu'r tudalennau dosbarth yn rheolaidd a'r pennaeth sy'n cyhoeddi'r adran 'newyddion'.

Mae'r cydlynnydd TGCh yn cydweithio i sicrhau bod y wefan yn weithredol ac i gefnogi athrawon yn ôl yr angen.

Diogelwch.

Yn ôl Cwricwlwm TGCh ceir adran 'Iechyd, diogelwch ac amddiffyn plant' sy'n datgan 'Dylid addysgu'r disgyblion sut i ddefnyddio TGCh yn gyfforddus, yn ddiogel ac yn gyfrifol, ac ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau'.

Addysgu a Dysgu

Diben mynediad i'r rhyngwrwyd yn yr ysgol yw codi safonau addysgol, cefnogi gwaith proffesiynol y staff a gwella systemau rheoli gwybodaeth a gweinyddu busnes yr ysgol.

Mae mynediad i'r rhyngwrwyd yn arf angenrheidiol ar gyfer staff a disgyblion. Mae'n cynorthwyo i baratoi disgyblion ar gyfer eu hanghenion gyrfa barhaus a'u datblygiad personol.

Mae'n un o ofynion y gorchmynion Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer TGCh ac mae ymhlyg mewn gorchmynion pynciau eraill.

Mae defnyddio'r rhyngwrwyd yn gwella dysgu

Darperir mynediad i'r rhyngwrwyd gan Gyngor Bro Morganwnwg ac fe'i cynlluniwyd ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn cynnwys hidlo sy'n briodol o ran cynnwys ac ar gyfer oedran disgyblion.

Cynllunnir mynediad i'r rhyngwrwyd i gyfoethogi ac ymestyn gweithgareddau dysgu.

Adolygir lefelau mynediad i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm.

Bydd aelodau staff yn dewis gwefannau sy'n cefnogi canlyniadau dysgu a gynllunnir ar gyfer oedran ac aeddfedrwydd disgyblion.

Addysgir disgyblion sut i gymryd cyfrifoldeb am eu mynediad rhyngwrwyd eu hunain. Fe'u addysgir sut i werthuso cynnwys y rhyngwrwyd a dulliau i ddilysu gwybodaeth cyn derbyn ei bod o angenrheidrwydd yn gywir. Addysgir

disgyblion i gydnabod ffynhonnell y wybodaeth wrth ddefnyddio deunydd o'r rhyngwrwyd ar gyfer eu defnydd personol hwy eu hunain. Gwneir disgyblion yn ymwybodol efallai nad y person a honnir yw awdur e-bost neu dudalen we.

Anogir disgyblion i ddweud wrth athro ar unwaith os deuant ar draws unrhyw ddeunydd sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.

Rheoli Mynediad i'r Rhyngwrwyd

E-bost

Ar hyn o bryd nid oes gan ddisgyblion gyfrifon e-bost unigol drwy'r ysgol.

Cynnwys a gyhoeddir a'r wefan yr ysgol

Mae'r wefan yn cydymffurfio â chanllawiau'r ysgol ar gyfer cyhoeddiadau.

Mae'r manylion cyswllt ar y wefan ar gyfer gweinyddiaeth yr ysgol yn unig.

Cyhoeddi delweddau a gwaith disgyblion

Ar fynediad i'r ysgol arwyddir cytundeb 'Polisi Defnydd Derbyniol' a roddir caniatâd ysgrifenedig gan rieni ynglŷn â'r defnydd o ffotograffau / datganiadau plant mewn cyhoeddiadau cyhoeddus, Twiter ac ar wefan yr ysgol.

Dim ond ar ôl derbyn caniatâd ysgrifenedig gan rieni'r plant y caniateir i ffotograffau'r plant fynd ar y wefan. Ni fydd enwau'r plant yn cael eu rhoi gyda'r ffotograffau.

Ni ddylai enw'r plentyn fod ar waith plant sy'n cynnwys ffotograffau.

Rhwydweithio cymdeithasol

Ni ddylid caniatáu i staff a disgyblion gael mynediad i ystafelloedd sgwrsio cyhoeddus o fewn yr ysgol.

Rheoli hidlo

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni, yr AALL, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Schoolmaster a'r Darparwr Gwasanaeth Rhyngwrwyd i sicrhau bod systemau i amddiffyn disgyblion yn cael eu hadolygu a'u gwella.

Os bydd staff neu ddisgyblion yn darganfod gwefannau anaddas, rhaid reportio'r URL (cyfeiriad) a'r cynnwys i'r Darparwr Gwasanaeth Rhyngwrwyd drwy'r cydlynnydd TGCh.

Rheoli technolegau sy'n amlygu

Ni ddylid defnyddio ffonau symudol yn ystod gwersi. Gwaherddir anfon negeseuon testun cas neu amhriodol.

Ni ddefnyddir camerâu mewn ffonau symudol gan staff na disgyblion.

Dim ond camerâu'r ysgol / iPad a ddefnyddir gan y staff a'r disgyblion at ddibenion addysgol.

Asesu risgiau

Mae'r ysgol yn cymryd pob gofal rhesymol i atal mynediad at ddeunydd amhriodol. Fodd bynnag, oherwydd graddfa ryngwladol a natur ddolennog

cynnwys y rhyngrwyd, nid yw'n bosibl sicrhau na fydd deunydd anaddas byth yn ymddangos ar gyfrifiadur sy'n gysylltiedig â rhwydwaith yr ysgol.

Ni all yr ysgol na Chyngor Bro Morgannwg dderbyn atebolrwydd am unrhyw ddeunydd a gyrchir, nac unrhyw ganlyniadau mynediad i'r rhyngrwyd. Caiff polisi e-ddiogelwch yr ysgol a'i weithrediad, ei fonitro a'i adolygu yn rheolaidd.

Ymdrin â chwynion e-ddiogelwch

Mae'n rhaid i gwynion am gamddefnydd o'r rhyngrwyd gael eu cyfeirio at y Pennaeth. Mae'n rhaid i unrhyw gŵyn am gamddefnydd gan staff hefyd gael ei gyfeirio at y Pennaeth.

Rhaid ymdrin â chwynion o natur amddiffyn plant yn unol â pholisi amddiffyn plant yr ysgol.

Hysbysir disgyblion a rhieni am y weithdrefn gwynion.

Hysbysir disgyblion a rhieni am ganlyniadau camddefnydd o'r rhyngrwyd gan ddisgybl.

Rôl y Cydlynnydd TGCh

Bydd y cydlynnydd TGCh yn:

- monitro safonau'r ddysgu ac addysgu.
- paratoi, adolygu a gwerthuso polisi a chynllun gwaith TGCh gyda chydweithrediad pob aelod o'r staff.
- yn cynorthwyo aelodau eraill o'r staff i gynllunio, gweithredu ag asesu sgiliau TGCh.
- yn monitro gweithrediad y polisi a'r cynllun gwaith drwy'r ysgol.
- sicrhau fod pob aelod o'r staff yn gwybod am unrhyw ddatblygiad cyfoes yn y pwnc ac yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau TG drwy raeadru gwybodaeth neu drwy hyfforddiant mewn swydd fewnol ac allanol.
- rheoli caledwedd a meddalwedd yr ysgol drwy archebu deunyddiau newydd a threfnu cronfa ddata o'r adnoddau sydd ar gael yn ogystal â threfnu i atgyweirio offer sydd wedi torri ag yswirio cyfarpar drud.
- ysgrifennu adroddiad blynyddol sy'n gwerthuso cryfderau a gwendidau'r maes TGCh gan nodi'r ffordd ymlaen.